

Ms Allyson Burrows  
Rheolwr Interim  
Shalom House  
Tyddewi  
113 Heol Non  
Sir Benfro  
SA62 6BP  
4 Mehefin 2014

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163  
Ffacs: 0300 062 8387  
E-bost: HIWinspections@wales.gsi.gov.uk

Annwyl Ms Burrows,

**Parthed: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â Shalom House, Tyddewi, ar 29 Mai 2014**

Fel y gwyddoch fe gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd â Shalom House, Tyddewi ar 29 Mai 2014.

**Golwg Gyffredinol ar y Lleoliad Gofal Iechyd**

Mae'r hosbis yn darparu cyfleusterau gofal dydd o ddydd Llun i ddydd Iau. Fe gaeodd yr hosbis y pum gwely i gleifion mewnol ym mis Tachwedd 2013 ond roedd wedi dechrau cymryd cleifion seibiant yn ddiweddar o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd y system newydd hon yn cael ei hadolygu ar ddiwedd 2014. Y gobaith oedd y byddai modd parhau â'r gwasanaeth seibiant hwn unwaith y mis yn ystod mis Gorffennaf, mis Medi a mis Tachwedd.

Mae gofal dydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ofal cymdeithasol, rheoli pryder ac asesu symptomau. Daeth yr hosbis yn lleoliad dan arweiniad nyrsys pan gaewyd y gwelyau ac roedd cymorth meddygol yn cael ei ddarparu bellach trwy Feddyg Teulu'r cleifion. Roedd system ar gyfer atgyfeirio a rhyddhau ac mae'r hosbis yn cydweithio'n agos gyda chyfleusterau'r GIG ac elusennau yn yr ardal leol. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth ysgrifenedig am y broses hon ar gael. Mae angen i'r broses hon gael ei ffurfioli ac mae angen i'r wybodaeth amdani fod ar gael. Daw atgyfeiriadau yn bennaf oddi wrth Feddyg Teulu neu Nyrs Glinigol Arbenigol y person.

SICRHAU  
GWELLIANT  
TRWY  
AROLYGU ANNIBYNNOL  
A GWRTHRYCHOL

DRIVING  
IMPROVEMENT  
THROUGH  
INDEPENDENT AND  
OBJECTIVE REVIEW

Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal  
Iechyd Cymru  
Welsh Government • Llywodraeth Cymru  
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful  
CF48 1UZ  
Tel • Ffôn 0300 062 8163  
Fax • Ffacs 0300 062 8387  
www.hiw.org.uk

Canfuwyd y Datganiad o Ddiben yn y brif dderbynfa ond nid oedd y Canllaw i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Roedd y dogfennau Cofrestru ar gyfer yr hosbis ar gael, ond roedd angen eu diweddarau ac roedd yr hosbis wedi cysylltu ag AGIC ac yn disgwyl am ymateb.

### **Ansawdd Triniaeth a Gofal**

Roedd yn amlwg bod y gofal yn berson-ganolog, yn seiliedig ar dystiolaeth a'i fod o safon uchel. Roedd systemau monitro ac archwilio clir yn bodoli. Roedd cyfleoedd ar gyfer adborth yn cael eu rhoi i gleifion a gofalwyr, ac roedd gwybodaeth am gwynion hefyd yn cael ei bwydo i mewn i'r broses adolygu. Nid oedd unrhyw gwynion wedi cael eu cyflwyno ers i'r hosbis agor, ac roedd tystiolaeth o arolygon bodlonrwydd cleifion fel rhan o 'I want great care' a chafwyd fod y rhain yn dda.

Hysbyswyd yr adolygwyr fod unrhyw driniaethau clinigol yn cael eu hegluro wrth gleifion fel eu bod yn deall goblygiadau'r driniaeth, gan gynnwys y risgiau a sgîl-ffeithiau posib. Roedd y cleifion yn cael eu hysbysu ynghylch yr opsiynau sydd ar gael iddynt ac roeddent yn cael eu cynnwys yn llawn pan oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch eu gofal. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o hyn yn y ddogfennaeth ar gyfer cleifion yr edrychwyd arni a chafodd yr angen am gynnwys ac ymgysylltu â chleifion ei drafod yn ystod yr ymweliad.

Roedd dewis ar gyfer cleifion yn cael ei annog lle bynnag y bo'n bosibl ac roedd staff i'w gweld yn ymwybodol o hawliau cleifion i breifatrwydd, urddas ac annibyniaeth fel yr oedd cyflwr y claf unigol yn ei ganiatáu. Roedd dull Amlddisgyblaethol (TA) yn cael ei gynnal wrth drefnu'r gofal ar gyfer cleifion. Roedd awyrgylch pleserus a hamddenol yn yr hosbis a gwelwyd aelodau o staff yn ymwneud â pherthnasau mewn modd digynnwrf a sensitif.

Roedd asesiadau'n cael eu cwblhau gan ddefnyddio erfyn asesu clir ond nid oedd tystiolaeth eu bod yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a chanfuwyd fod cynlluniau gofal wedi dyddio er y dywedwyd wrthym fod cyflwr y person yn cael ei fonitro'n barhaus ac y byddai camau gweithredu'n cael eu cymryd fel y bo angen.

Roedd ystod gynhwysfawr o daflenni ar gael i roi cymorth, arweiniad a gwybodaeth i gleifion, perthnasoedd, gofalwyr ac unrhyw berson arall ac roedd yr wybodaeth hon yn eglur ac ar gael yn rhwydd.

Roedd system Peidiwch â Dadebru (DNR) ar waith ond nid oedd tystiolaeth glir o gynllunio gofal ymlaen llaw er bod cynlluniau gofal yn dangos bod trafodaethau am ofal wedi cael eu cynnal gyda'r claf a theuluoedd.

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfweiliadau gyda staff na chleifion yn ystod yr ymweliad hwn.

### **Llywodraethu Clinigol**

Nodwyd fod nifer o bolisïau a gweithdrefnau yr oedd angen eu diweddarau a chaiff y rhain eu nodi isod. Roedd gan y sefydliad nifer o fecanweithiau archwilio a oedd yn archwilio agweddau ar yr amgylchedd a gwybodaeth o'r archwiliadau hyn ond nid oedd tystiolaeth o gynlluniau gweithredu yn dilyn yr archwiliadau hyn a chafodd yr angen am

y cynlluniau hyn ei drafod ar adeg yr ymweliad. Nid oedd y fframwaith llywodraethu clinigol i sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal wedi'i ddatblygu'n dda ac nid oedd strategaeth ar gael i ddatblygu'r fframwaith hwn ymhellach. Roedd angen rhoi sylw i addysg a hyfforddiant gorfodol fel a nodir isod.

Roedd angen cronfa ddata ganolog gyda llofnodion staff i ddynodi eu bod i gyd wedi darllen a deall polisiau a gweithdrefnau. Nid oedd polisi nwyon meddygol ac roedd hyn yn ofynnol.

Nid oedd polisiau a gweithdrefnau cyfredol yn bodoli i leihau heintiau ac nid oedd tystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau parhaus. Nid oedd gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) wedi'u sefydlu ac nid oedd polisi ar Ddiogelu Rhag Colli Rhyddid. Roedd yr hosbis yn gofalu am oedolion yn unig ond roedd plant a oedd yn ymweld yn cael eu croesawu i mewn i amgylchedd gofal diogel.

Roedd offer digonol ar gyfer staff.

### **Rheolaeth a Phersonél**

Roedd strwythur sefydliadol a rheoli clir ar gyfer yr hosbis a oedd dan arweiniad nyrsys gyda rheolwr nyrsio gweithredol yn rheoli'r sefydliad o ddydd i ddydd.

Gwelwyd y polisiau adnoddau dynol ond roedd angen diweddarau llawer ohonynt. Adolygwyd cofnodion personél a chanfuwyd bod gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol/Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (CRB/DBS), ffotograffau staff a thystiolaeth o gofrestriad cyfredol yn eisiau lle'r oedd y rhain yn ofynnol.

Roedd yr holl staff a gyflogir o'r newydd a gwirfoddolwyr newydd yn dilyn rhaglen sefydlu a oedd yn cynnwys materion iechyd a diogelwch. Mae nyrsys cymwysedig a phrofiadol yn arwain gofal nyrsio yn y ganolfan ddydd gyda chymorth gweithwyr cymorth gofal iechyd. Er bod y nyrsys wedi cael profiad o ofal lliniarol nid oeddent yn meddu ar gymwysterau arbenigol mewn gofal lliniarol.

Roedd y rhestr ddyletswydd yn cadarnhau bod nifer a chymysgedd sgiliau'r staff ar bob sifft dros gyfnod o 24 awr yn briodol i nifer ac anghenion y cleifion gofal seibiant a dydd ar adeg yr arolygiad. Pan oedd cleifion seibiant yn yr hosbis roedd staff banc yn cael eu cyflogi yn ôl yr angen. Mae Therapydd Galwedigaethol yn cael ei gyflogi yn yr hosbis ddau ddiwrnod yr wythnos.

Roedd gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaeth gwerthfawr mewn amrywiaeth o rolau o fewn yr hosbis a thrwy godi arian. Nid oedd gwirfoddolwyr yn darparu gofal personol. Wrth bennu eu haddasrwydd i weithio yn Shalom House, roedd gwirfoddolwyr yn mynd trwy'r un gweithdrefnau â staff a oedd yn cael eu recriwtio ar gyfer cyflogaeth. Roedd gwirfoddolwyr yn cael rhaglen sefydlu a chyfleoedd hyfforddi parhaus.

### **Y Safle, yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau**

Roedd yr amgylchedd yn lân ac roedd mynediad iddo trwy gyntedd y dderbynfa. Gall cleifion ac ymwelwyr fynd i bob ardal yn yr hosbis ac roedd lifft siafft i'r llawr cyntaf ar gael.

Roedd yr ystafelloedd gwely i gyd wedi'u haddurno'n chwaethus ac yn cynnwys ystafell ymolchi gysylltiedig ac roedd cymysgedd o ystafelloedd sengl gyda theledu/radio, ffôn a phwyntiau galw nyrs. Roedd ystafell ymolchi â chymorth i'w chael hefyd. Roedd cyfleusterau arlwyo ar gael ar y safle. Roedd dillad golch yr hosbis yn cael ei olchi oddi ar y safle. Fodd bynnag, roedd peiriant golchi a pheiriant sychu ar gael ar gyfer dillad personol.

Yn glinigol roedd yr amgylchedd yn cefnogi safon ofal dda gydag offer cyfredol ar gael. Roedd angen adolygu rhai ardaloedd storio gan fod dillad golch yn cael eu rhoi i sychu yn ystafell y boeler ar hyn o bryd sydd hefyd yn gweithredu fel ystafell ystreulio ac roedd angen symud deunyddiau golchi o'r ystafell olchi.

Roedd atgyweiriad diweddar i doiled y staff wedi arwain at osod uned seiffon anghywir, a oedd yn atal y seston rhag gweithredu'n effeithlon. Roedd rhaglen dreigl o waith cynnal a chadw ac adnewyddu'n bodoli o fewn yr hosbis.

Roedd cofnodion damweiniau'n cael eu cynnal yn briodol ac roedd yr holl ddamweiniau yr oedd gofyn eu hatgyfeirio dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn lleol.

Mae arlwyo'n digwydd ar y safle ond nid oeddem yn gallu gweld cofnodion, polisiâu a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r agwedd hon ar ofal gan nad oeddent ar gael ar y safle ar ddiwrnod yr arolygiad. Cawsom ein hysbysu bod Swyddog Iechyd yr Amgylchedd wedi ymweld â'r safle ryw ddwy flynedd yn ôl, ac wedi tynnu sylw at un mân-bryder yn unig.

Fe edrychom ni ar dystysgrifau a chofnodion ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd i osodiadau gwasanaethau a chawsom eu bod mewn trefn ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd y prawf ar y gosodiad gwifrau trydanol wedi dyddio, ac felly hefyd y profion dadwefru chwe-misol/blynyddol ar y system goleuadau argyfwng.

Roedd yr adroddiad ar yr archwiliad diwethaf gan Wasanaeth Tân Gorllewin Cymru'n cynnwys sylw ar ddigonolrwydd profion ar larymau tân ac adolygiad o'r Asesiad Risg Tân ar gyfer y safle. Roedd angen gweithredu o hyd ar y ddau faes yma. Roedd tystiolaeth o Hyfforddiant Tân i staff, ond nid oedd yn ymddangos bod unrhyw ymarferion tân wedi cael eu cynnal am beth amser. Argymhellwyd fod o leiaf ddau ymarfer tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi, ac y dylai un o'r rhain fod yn ymarfer efelychu yn ystod yr oriau tawel.

Gwelwyd contract ar gyfer cynnal a chadw'r peiriant ystreulio, ond nid oedd unrhyw adroddiadau cynnal a chadw ar gael.

Roedd gwaith cynnal a chadw i'r holl declynnau codi cleifion yn foddhaol, a chynghorwyd y dylid rhoi ystyriaeth i brynu rhai systemau uwchben â thraciau sefydlog.

## **Rheoli Cofnodion**

Roedd yr holl gofnodion sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth yn eu lle ac roedd yr holl ddogfennaeth yn cael ei chadw'n ddiogel yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu

Data. Roedd yr holl ganllawiau diogelu data ac egwyddorion Caldicott yn cael eu dilyn a gwelwyd fod y trefniadau rheoli gwybodaeth yn foddhaol.

Roedd angen adolygu cofnodion cleifion a'u cwblhau'n barhaus ac fe drafodwyd hyn ar adeg yr ymweliad. Gall cleifion gael mynediad at eu cofnodion ac roeddent yn ymwybodol o hyn.

Cafodd y materion isod eu hamlygu yn ystod yr ymweliad a chafodd y rhain eu cyflwyno mewn trosolwg ar lafar i'r rheolwr cofrestredig dros dro ar ddiwedd yr ymweliad.

**Gofynion newydd o ganlyniad i'r arolygiad hwn a drafodwyd ar adeg yr arolygiad:**

<b>Camau Gweithredu sy'n Ofynnol</b>	<b>Amserlen ar gyfer eu cwblhau</b>	<b>Rhif y Rheoliad</b>
Canfuwyd fod nifer o bolisiau wedi dyddio a bod angen eu hadolygu. Roedd rhai polisiau wrthi'n cael eu hadolygu ac mae angen cwblhau'r gwaith yma	48 Awr	Rheoliad 9 (1)
Nid oedd y Polisi Nwyon Meddygol ar gael.	48 Awr	Rheoliad 9(1)(d) a 15 (5) (a) (b)
Nid oedd y Polisi Dillad Golch ar gael.	48 Awr	Rheoliad 9 (1)(n) a (3) a 15(8)(c)
Ni ddaethpwyd o hyd i'r Polisi Cadw Tŷ.	48 Awr	Rheoliad 9(1)(c)(n)
Ni ddaethpwyd o hyd i'r Polisi Diogelu Rhag Colli Rhyddid.	48 Awr	Rheoliad 20 (2) (a)(b)
Canfuwyd fod hyfforddiant gorfodol i staff wedi dyddio ac yn anghyflawn ac nad oedd cofnodion eglur o hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer personél.	Ar unwaith ac yn barhaus	Rheoliad 9(m) a 20(2) (a)(b)
Nid oedd Polisi Rheoli Meddyginiaeth.	Ar unwaith ac yn barhaus	Rheoliad 9 (1)(b)(m)a 15(5)(a)(b)
Mae angen adolygu ardaloedd storio gan eu bod yn risg i ddefnyddwyr o safbwynt rheoli heintiau a diogelwch.	Ar unwaith ac yn barhaus	Rheoliad 9(1)(e(k))(n) a 15(1)(b)

Nid oedd cyflenwadau glanhau dan glo mewn cypyrddau.		
Roedd angen adolygu'r Canllaw i Gleifion	48 Awr	Rheoliad (8)(a)
Nid oedd y Polisi Amddiffyn Plant ar gael.	48 Awr	Rheoliad 9(1)(e) (f) ac 16 (3)(a)
Nid oedd y Polisi Gweithiwr Unigol ar gael.	48 Awr	Rheoliad 9 (1) (e) (k)
Canfuwyd fod y Polisi Rheoli Cofnodion wedi dyddio a bod angen ei adolygu.	48 Awr	Rheoliad 9(1)(f)
Canfuwyd fod Polisi Chwythu'r Chwiban wedi dyddio a bod angen ei adolygu.	48 Awr	Rheoliad 19(1)(a)(b) a (2)(c)(d)(e)
Nid oedd y Polisi Llywodraethu Clinigol ar gael.	48 Awr	Rheoliad 9(1) (e) (f) (o) a 15 (1)(c)
Canfuwyd fod y Polisi Cydsynio wedi dyddio a bod angen ei adolygu.	48 Awr	Rheoliad 16(1)(a) ac 17(1)
Canfuwyd fod y Polisiâu Iechyd a Diogelwch wedi dyddio a bod angen eu hadolygu.	48 Awr	Rheoliad 9(1)(e)(k) a 15(1)(b)
Nid oedd unrhyw gofnod bod arfarniadau staff wedi cael eu cynnal.	Chwe mis	Rheoliad 20(2) (a)
Canfuwyd fod y Polisiâu Adnoddau Dynol wedi dyddio a bod angen eu hadolygu.	48 Awr	Rheoliad 9(1) (e)(f)(h) a 21(2)(d)
Canfuwyd fod y Polisi Codi a Chario wedi dyddio a bod angen ei adolygu.	48 Awr	Rheoliad 9 (1) (e)(f)(k)
Ni ddaethpwyd o hyd i'r Polisi Dadebru.	48 Awr	Rheoliad 9(1)(b)(f) a 15(1)(a)(b)(c)
Ni welwyd tystiolaeth o system rheoli risgiau.	Ar unwaith ac yn barhaus	Rheoliad 9(1)(e) ac 16 (1) (a)(b) ac 19(1)(a)(b)

Roedd angen adolygu cofnodion cleifion i sicrhau asesiadau, cynlluniau gofal a threfniadau cadw cofnodion cyfoes.	Ar unwaith ac yn barhaus	Rheoliad 9 (1)(f) a 23(1)(a)(i)
Nid oedd Polisi Rheoli Gwastraff ar gael.	48 Awr	Rheoliad 9 (1) (n)
Nid oedd y Polisi Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ar gael.	48 Awr	Rheoliad 16(3)(a)
Nid oedd y Polisi Ymddygiad Heriol ar gael.	48 Awr	Rheoliad 9(1)(e) a 15(1)(b)
Nid oedd y Polisi Atgyfeirio a Rhyddhau ar gael.	48 Awr	Rheoliad 9(1)(a)
Trefnu ail archwiliad cyfnodol o'r gosodiad gwifrau trydanol.	2 wythnos	Rheoliad 26 (4)(e)
Trefnu prawf dadwefru llawn dros dair awr ar gyfer y gosodiad Goleuadau Argyfwng.	2 wythnos	Rheoliad 26 (4)(a)
Cynnal adolygiad blynyddol o'r Aseiad Risg Tân, a chofnodi'r canfyddiadau'n briodol.	2 wythnos	Rheoliad 26 (4)(a) ac (f)
Sicrhau profion digonol ar gyfer y gosodiad larwm tân bob 3/6 mis a 12 mis.	2 wythnos	Rheoliad 26 (4)(a) ac (e)
Cynnal ymarferion tân rheolaidd bob chwe mis, a chofnodi'r canlyniadau.	2 wythnos	Rheoliad 26 (4)(c)(d)

### **Argymhellion Arfer Da:**

Datblygu system ar gyfer goruchwyliaeth glinigol.

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i bob aelod o staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Cysylltwch â mi yn ddiymdroi os byddwch yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mr Bryan Rees, Unigolyn Cyfrifol, Shalom House.

Yn gywir

A handwritten signature in purple ink, appearing to read 'Phil Price', is positioned above a solid horizontal line.

**Phil Price**  
Rheolwr Arolygu